

Mae'r Dyfodol yn Lleol

Grymuso cymunedau
i wella eu cyndogaethau



Y Comisiwn Datblygu
Cynaliadwy
Cymru

Diolchiadau

Tim Drafftio

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Helen Eveleigh gyda chefnogaeth gan Ian Fenn, Lizzie Chatterjee, Shirley Rodrigues ac Andrew Lee.

Gyda diolch arbennig i:

Stewart Davies, Bob Knowles, Alison Mathias, Anne Power, Jonathan Davis, Helen Walker, Peter Matthew, Harriet Festing, Tereza Kadlecova & Ifs, Andrew Purvis, Maria Arnold, Jayne Ashley, Sue Dibb, James Greenleaf, Tim Jenkins, Duncan Kay, Andy Long, Claire Monkhouse, Alice Owen, Shivani Reddy, Rhian Thomas, Kay West a Becky Willis.

© Y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy Gorffennaf 2010

Addaswyd delwedd y clawr blaen o: © Buro Happold

Darparwyd arian ar gyfer y prosiect gan yr Asiantaeth Cartrefi a Chymunedau (HCA), yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol (CLG), yr Adran dros Ynni a Newid yn yr Hinsawdd (DECC) a'r Bartneriaeth Effeithlonrwydd Ynni i Gartrefi (EEPH). Darparodd y Comisiwn Pensaernïaeth a'r Amgylchedd Adeiledig (CABE) gefnogaeth mewn da.

Hoffai'r Comisiwn ddiolch i'r arianwyr a phawb sydd wedi cymryd rhan yn y prosiect. Gwerthfawrogir pob cyfraniad yn fawr. Mae'r adroddiad hwn yn nodi barn y Comisiwn yn seiliedig ar yr ymchwil a thrafodaethau'r Grwpiau Tasg a'r Grŵp Llywio a amlinellwyd uchod. Nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn holl gyfranogwyr neu arianwyr y prosiect.

Hysbyswyd yr adroddiad hwn gan ddadansoddiad o fwy nag 80 o astudiaethau achos, ymchwil dechnegol a ymgwymerwyd gan Buro Happold a chontractwyr allanol eraill, adolygiad helaeth o lenyddiaeth, a mewnbwn gan Grwpiau Tasg ac arbenigwyr allanol.

Rhagair

Daw'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy â dros 10 mlynedd o brofiad o gydweithio gyda llywodraeth genedlaethol a lleol, cymdeithas ddinesig a sefydliadau busnes, academia ac arbenigwyr unigol. Mae'r rôl ymgynnull hon yn ein galluogi i ddeall gwahanol safbwyntiau ar faterion hollbwysig yn well, ac, yn bwysicach, i lunio argymhellion ymarferol a chytunedig i'r llywodraeth sy'n adlewyrchu cymhlethdod a chysylltedd bywyd go iawn.

Er nad yw'r ymagwedd hon yn unigryw i'r SDC, yr hyn sy'n unigryw yw ein cyfrifoldeb i ddadansoddi sefyllfaoedd, ac i ddyfeisio datrysiadau a gwneud argymhellion fydd yn cyflwyno deilliannau gwell a mwy cynaliadwy i'r llywodraeth.

Gall defnyddio lens datblygu cynaliadwy i ystyried ystod o opsiynau helpu i wneud y defnydd gorau a mwyaf effeithlon o adnoddau prin yn y tymor byr a'r tymor hir, tra'n sicrhau hefyd ein bod yn gwella tegwch a chydlynid cymdeithasol, a pharchu a diogelu ein hamgylchedd naturiol.

Yn bwysig, ar adeg lle mae penderfyniadau yn cael eu gwneud i wneud toriadau llym mewn cyllidebau a

gwasanaethau i fynd i'r afael â'r diffyg, mae'r ymagwedd hon yn un y gall gynorthwyo'r llywodraeth i wneud y penderfyniadau anodd y maent yn eu hwynebu.

Mae'r adroddiad hwn yn enghraifft ardderchog o'r hyn y gall SDC ei wneud i gefnogi llywodraethu. Mae'n adeiladu ar brofiad astudiaethau achos niferus sy'n dangos yr ystod eang o fanteision cynaliadwyedd y gellir eu cyflawni o addasu ac uwchraddio ein seilwaith.

Cred y Comisiwn y gellir gwneud y broses angenrheidiol hon mewn ffordd sy'n arwain at fanteision lluosog; cynhyrchu swyddi a sgiliau, lleihau ein hallyriadau carbon a gwastraff ac ar yr un pryd ymgysylltu â chymunedau mewn ffordd sy'n sicrhau eu bod yn rhan o'r broses o gyflawni gwell ansawdd bywyd iddyn nhw'u hunain a'r rhai o'u cwmpas.

Mae'n gyfle rhy dda i'w golli. Edrychaf ymlaen at dderbyn eich adborth.

Will Day

Cadeirydd, Comisiwn Datblygu Cynaliadwy

Galluogi cymunedau i adnewyddu eu heiddo a seilwaith cymunedol yw'r ffordd fwyaf cost effeithiol i sicrhau bod ein pentrefi, trefi a dinasoedd yn addas ar gyfer y dyfodol ac yn creu'r amgylchiadau i bobl ffynnu. Mae Mae'r Dyfodol yn Lleol yn pwyntio at y DU yn gweld lefelau anrhagweladwy o ymgysylltu gan drigolion, buddsoddwyr a'r busnesau yn y gadwyn gyflenwi mewn hwb y mae mawr ei angen ar weithgarwch economaidd fydd yn cyflwyno mantais hir dymor i'r cymunedau hyn.

Gall rheoli gweithfeydd uwchraddio ar sail cymdogaeth annog mwyn o gyfranogiad a thorri costau gan 20-30%. Bydd rhyddhau'r gallu hwn yn helpu cyflwyno graddfa a chyflymder y newid sydd ei angen i gwrdd â'r targedau economaidd, carbon ac effeithlonrwydd adnoddau y mae ein dyfodol yn dibynnu arnynt.

Wrth edrych ar y newid ymddygiad gan unigolion fydd ymhlyg mewn symudiad tuag at fyw'n gynaliadwy, mae'r bwlbwch rhwng bwriad a gweithred yn amlwg. Mae unigolion yn teimlo wedi'u cyfyngu gan y systemau ffisegol y maent yn byw ac yn gweithio oddi mewn iddynt – yr adeiladau a'r strydoedd presennol, pibellau a gwifrau cyfleustodau, a chaledwedd darparu gwasanaethau lleol, o finiau i arosfannau bws. Mae'r seilwaith lleol hwn, sy'n bresennol mewn gwahanol ffurfiau ym mhob cymdogaeth gan y'i cyflwynwyd ar gyfer gwahanol anghenion dros ei hanes, yn amharu ar ansawdd bywyd pobl ac nid yw'n eu paratoi'n dda ar gyfer y flaenoriaeth gynyddol o fyw'n gynaliadwy.

Mae Mae'r Dyfodol yn Lleol yn cyflwyno tystiolaeth bod cyfle mawr heb ei wireddu yn y DU i ddatgloi'r mater hwn drwy ganolbwyntio ar y lefel orau er mwyn mynd i'r

afael â'r anghenion hyn i ail-fuddsoddi mewn seilwaith : y gyndogaeth.

Ar lefel cymdogaeth:

- Gellir sicrhau ymgysylltu trigolion drwy ymagweddau llywodraethu yn hybu perchnogaeth leol a lefelau uchel o'r defnydd o fesurau addasu sydd fwyaf priodol i bob cymuned a darparu graddfa prosiect a strwythur partneriaeth dichonol i'r gadwyn gyflenwi a buddsoddwyr;
- Daw mesurau adnoddau ac effeithlonrwydd carbon technegol yn ddichonol ar lefel stryd-gyfan a chymdogaeth nad ydynt yn ddilys ar lefel cartrefi unigol, yn cynnwys y rhan fwyaf o dechnolegau a chlodiant carbon isel/ynni adnewyddadwy;
- Mae mynediad i fuddsoddiad preifat yn cynyddu wrth i lefel cymdogaeth ddarparu 'mas critigol', sy'n galluogi denu arian cyhoeddus prin yn fwy effeithiol.

Mae argymhellion yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar yr ymarferol, y 'sut' o safbwynt rheoli gweithfeydd uwchraddio ar sail cymdogaeth: adeiladu gallu ar lefel leol, datblygu a rhannu arfer gorau yn genedlaethol a hwyluso ymgysylltu gan fusnesau cadwyn gyflenwi, arianwyr a llunwyr polisi sy'n dymuno gweld cymunedau yn cymryd perchnogaeth yn llwyddiannus dros newid lle maent yn byw.

Dr Stewart Davies

Comisiynydd

Crynodeb Gweithredol

Mae seilwaith ffisegol ein pentrefi, ein trefi a'n dinasoedd angen ei uwchraddio'n sylweddol ac wrth wneud hynny mae gennym gyfle i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, darparu rhwydweithiau trafndiaeth dibynadwy ac effeithlon, gwella iechyd a lles, sicrhau amgylchedd naturiol iach, gwella'r cyflenwad o dai yn yr hirdymor, sicrhau'r cyfleoedd cyflogaeth mwyaf a gwneud ein cymunedau yn fwy diogel a chydlynus.

Er y cydnabyddir y cyfleoedd hyn ar lefel genedlaethol ar gyfer prosiectau seilwaith mawr, ni chânt eu gwireddu ar gyfer seilwaith ffisegol lleol. Pan gyfeiriwn at seilwaith ffisegol lleol rydym yn golygu adeiladau (domestig ac annomestig - yn cynnwys adeiladau adfeiliedig), ffyrdd, llwybrau cerdded a seiclo, mannau cyhoeddus a seilwaith gwyrdd (parciau, gerddi, caeau chwarae, coed ac ati), seilwaith glas (camlesi, llynnoedd, afonydd ac ati), tir a gaiff ei danddefnyddio, cyfleusterau gwastraff ac ailgylchu; cyfleustodau tanddaearol yn cynnwys trydan (a phwyntiau ailwefru), nwy, d'r, Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (yn cynnwys band llydan cyflym iawn), a'r rhwydweithiau gwres.

Ar yr un pryd rydym yn wynebu prinder arian cyhoeddus. Yn 2009 roedd dyled y DU yn fwy nag y bu erioed yn ystod cyfnod o heddwch. Yn ôl y Canghellor¹, yn 2010 rhagwelir mai dyled y DU fydd y mwyaf yn y byd. Mae'r Llywodraeth newydd wedi ei gwneud yn glir mai mynd i'r afael â'r ddyled fydd yr orchwyl sydd â'r brys mwyaf i'w chyflawni. O ganlyniad mae wedi addo cyflymu'r broses o leihau'r ddyled yn sylweddol, a fydd yn golygu toriadau sylweddol mewn arian ar gyfer y sector cyhoeddus.

Os ydym am wneud y gwelliannau sydd eu hangen i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ochr yn ochr â sicrhau'r manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol

ehangach a fydd yn gwella ansawdd bywyd i bawb mae'n rhaid i ni edrych ar ffyrdd newydd o weithio. Mae hyn yn golygu edrych ar ffyrdd o wneud i adnoddau presennol weithio'n galetach drwy arbedion effeithlonrwydd, a dod o hyd i ffyrdd newydd o gael gafael ar gyllid preifat.

Mae'r ffordd y byddwn yn cyflawni'r gwaith hwn yr un mor bwysig â'r newidiadau ffisegol - mae gweithio ar lefel leol yn cynnig cyfle i gryfhau cymunedau, adeiladu eu cyfalaf cymdeithasol a'u gallu i ymateb i heriau lleol. Mae potensial nid yn unig i drawsnewid lleoedd ond i drawsnewid cymdeithas. Er mwyn cyflawni hyn rhaid inni ystyried sut y gallwn symbylu, cefnogi a grymuso cymunedau i ddod ynghyd i benderfynu sut i wella lles hirdymor eu hardaloedd lleol.

Yn y cyd-destun hwn y cynhyrchodd y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yr adroddiad amserol hwn. Credwn fod ateb i'r problemau hyn, ffordd o ostwng ein hallyriadau carbon, gan wneud ein lleoedd yn fwy gwydn i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd a chreu cymdeithas well, decach ac iachach mewn ffordd gost-effeithiol. Mae'r ateb ar ffurf rhaglenni addasu integredig ar gyfer cymunedau, gwaith adnewyddu wedi'i arwain gan bobl leol i wella'r lleoedd y maent yn byw ynddynt a'u paratoi ar gyfer unfed ganrif ar hugain mwy darbodus ond gwyrddach.

Beth yw'r broblem?

Lleihau carbon

Un o'r cymhellion pwysicaf ar gyfer uwchraddio'r seilwaith presennol yw'r angen i sicrhau gostyngiad o 80 y cant yn allyriadau carbon y DU erbyn 2050. Daeth y Comisiwn dros Bensaerniaeth a'r Amgylchedd Adeiledig a BioRanbarthol i'r casgliad o'u hymwneud â'r rhaglen eco-drefi y gallai lle

sydd wedi'i gynllunio a'i adeiladu'n dda helpu'r preswylwyr i gyflawni gostyngiad o 75 y cant yng nghyfanswm eu hallyriadau carbon a gostyngiad o 78 y cant yn eu hól troed ecolegol.²

Gall y cyfraniad mwyaf sylweddol gael ei wneud gan adeiladau presennol. Mae'r 21 miliwn o gartrefi sydd yn y DU yn gyfrifol am 27 y cant o'n hallyriadau carbon.³ Mae'r 1.8 miliwn o adeiladau annomestig yn gyfrifol am 18 y cant o allyriadau'r DU.⁴ O gofio y bydd 86 y cant o'r cartrefi sy'n bodoli heddiw yn parhau i fodoli yn 2050⁵ mae angen i ni wella effeithlonrwydd ynni yr adeiladau hyn.

Felly mae angen rhaglen enfawr o waith i uwchraddio'r stoc adeiladau presennol os ydym am gyrraedd y targedau hyn. Bydd y ffordd y caiff y gwaith hwn ei gynllunio, ei reoli a'i gyflawni yn cael effaith sylweddol ar gostau ac effeithiolrwydd y rhaglen. Amcangyfrifir y bydd y gwaith o gyflawni gostyngiad o 80 y cant mewn allyriadau carbon o adeiladau presennol yn costio rhwng £200 a £400 biliwn neu fwy ar gyfer adeiladau domestig⁶ a rhwng £13 a £50 biliwn ar gyfer adeiladau annomestig.⁷ Er y gellir adennill y costau rhag blaen hyn yn yr hirdymor drwy'r arbedion ynni a ddaw yn sgil yr uwchraddio, maent yn rhwystr i nifer o ddeiliaid tai. Dengys ein hymchwil y gellid lleihau'r costau 20 neu 30 y cant os caiff gwaith ei wneud ar sail ardaloedd (yn hytrach nag ar sail cartrefi unigol). Mae hefyd yn amlygu'r potensial y bydd mwy yn manteisio ar y rhaglenni pan gânt eu cyflwyno ar sail ardaloedd.

Sicrhau canlyniadau cynaliadwy ehangach

Yn yr un modd bydd y ffordd y caiff rhaglenni uwchraddio seilwaith eu cynllunio, eu rheoli a'u cyflawni, a sut y bydd ein lleoedd yn gweithredu wedi hynny, yn cael effaith fawr ar ba mor gynaliadwy y bydd pobl yn byw eu bywydau. Drwy edrych yn ehangach nag adeiladau, bydd rhaglenni addasu ar gyfer cymdogaethau yn cael effaith sylweddol ar ansawdd bywydau pobl, ac yn pennu pa mor ddiogel a hawdd yw symud o gwmpas, pa mor weithgar ac iach yw pobl, a pha mor fodlon ydynt i dreulio amser yno.

Yn ogystal â mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, dengys yr ymchwil hwn y gall rhaglen integredig wedi'i haddasu ar gyfer ardaloedd arwain at lu o fanteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol am yr un gost neu gost debyg. Fel y nodir yn yr adroddiad mae gan y gwaith hwn y potensial i:

- Leihau allyriadau carbon
- Gwneud defnydd effeithlon o adnoddau
- Gwella diogelwch ynni
- Gwneud lleoedd yn fwy gwydn i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd
- Gwella bioamrywiaeth
- Creu swyddi lleol

- Cryfhau economiau lleol
- Gwella ansawdd a gwerth lleoedd presennol
- Lleihau tlodi tanwydd
- Gwella iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd
- Cryfhau cymunedau a gwella rhyngweithio mewn cymunedau

Osgoi'r costau sy'n gysylltiedig â seilwaith gwael

Yn ogystal â gwella ansawdd bywyd i ddinasyddion y DU, bydd sicrhau'r buddiannau ehangach hyn yn helpu i osgoi costau sy'n gysylltiedig â seilwaith gwael yn y dyfodol. Yn yr hinsawdd economaidd bresennol mae'n hollbwysig ein bod yn edrych ar wella sut mae ein lleoedd presennol yn gweithio yn yr hirdymor.

Mae angen i ni addasu ein lleoedd presennol a'u gwneud yn fwy gwydn i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd. Os na fyddwn yn gwneud hyn, mae'r Arglwydd Stern yn amcangyfrif y gallai'r effaith economaidd yn sgil tywydd eithafol yn unig gyrraedd 2 y cant o CMC y byd erbyn 2050.⁸ Cynhaliodd Manceinion ei arolwg 'Stern bach' ei hun ac amcangyfrifodd bod rhanbarth y ddinas mewn perygl o golli £12 biliwn dros y 12 mlynedd nesaf os na fydd yn addasu – a bod rhanbarth ehangach Gogledd Orllewin Lloegr mewn perygl o golli £70 biliwn.⁹ Dangosodd y llyfogydd yn ystod haf 2007 y difrod all gael ei achosi. Costiodd y rhain fwy na £3 biliwn i yswirwyr.¹⁰

Mae angen i ni wella ein lleoedd presennol os ydym am osgoi cost sylweddol i'r GIG hefyd. Amlygodd adroddiad y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy, Health, Place and Nature sut y gall gwelliannau i'r amgylchedd adeiledig, yn arbennig seilwaith gwyrdd, wella iechyd corfforol a meddyliol mewn ffordd yn fwy cost effeithiol. Mae gordewdra eisoes yn costio £1 biliwn y flwyddyn i'r GIG a £2.3 biliwn i'r economi ehangach.¹¹ Mae salwch meddwl (iselder yn bennaf) yn costio £12 biliwn y flwyddyn i'r GIG a £64 biliwn i'r economi ehangach.¹² Yn ogystal amcangyfrifir bod tai sy'n is na'r safon yn costio £2.5 biliwn y flwyddyn i'r GIG ac £1.8 biliwn i'r economi ehangach.¹³

Mae angen i ni wella sut yr ydym yn symud o gwmpas ein lleoedd presennol os ydym am osgoi costau sylweddol yn sgil tagfeydd. Os cânt eu hanwybyddu amcangyfrifir y bydd tagfeydd yn costio £22 biliwn i Loegr erbyn 2025.¹⁴ Mae gwelliannau i lwybrau seiclo a cherdded yn darparu cymhareb cost a budd o 20:1, o gymharu â chymhareb o 3:1 ar gyfer gwelliannau i ffyrdd a rheilffyrdd.¹⁵ Nid yw hyn yn ystyried arbedion yn sgil allyriadau carbon, a allai fod yn sylweddol o gofio bod trafnidiaeth yn gyfrifol am 22 y cant o allyriadau carbon y DU.¹⁶

Beth yw manteision ymagwedd integredig yn seiliedig ar ardaloedd?

Yn yr hinsawdd economaidd bresennol mae angen i ni edrych ar sut y gellir rhoi'r mesurau hyn ar waith yn y ffordd fwyaf cost effeithiol i sicrhau'r manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol mwyaf posibl. Awgryma ein hymchwil na allwn fforddio parhau gyda'r ymagwedd dameidiog bresennol tuag at uwchraddio elfennau o seilwaith cymdogaethau.

Yn ogystal, mae angen i ni edrych ar ffyrdd o gyflawni'r manteision hyn ar y gost leiaf i unigolion yn yr hinsawdd economaidd anodd sydd ohoni, gan ymchwilio i ffyrdd newydd o ariannu a chyflawni'r prosiectau hyn.

Cred y Comisiwn bod manteision amlwg i fabwysiadu ymagwedd resymegol, integredig a chydweithredol – lleihau costau ac aflonyddwch; ymgysylltu â chymunedau a'u galluogi i bennu siâp eu cymdogaethau; a defnyddio adnoddau er budd ardaloedd lleol.

Lleihau cost ac aflonyddwch

Mae llawer o welliannau i seilwaith yn arwain at fuddiannau niferus. Er enghraifft, mae gwella seilwaith gwyrdd yn gwella gwydnwch ein lleoedd i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd fel llifogydd a gorgynhesu; mae'n gwella iechyd corfforol a meddyliol; ac mae'n darparu opsiynau ar gyfer llwybrau cerdded a seiclo gwell. Bydd ymagwedd integredig tuag at gynllunio gofodol yn seiliedig ar ardaloedd yn helpu i nodi cyfleoedd ar gyfer rhaglenni uwchraddio i sicrhau'r canlyniadau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol mwyaf. Bydd cynllunio a chyflawni'r gwaith hwn mewn ffordd integredig yn arbed arian drwy seilwaith cyffredin, prosesau ymgysylltu â chymunedau unigol a darpariaeth integredig. Gall hefyd leihau aflonyddwch i drigolion a busnesau yn ystod y gwaith adeiladu a chynnal a chadw.

Fel y dengys yr astudiaethau achos a'r gwaith ymchwil, mae rhaglenni effeithlonrwydd ynni yn seiliedig ar ardaloedd wedi dangos bod cyfraddau uwch yn manteisio arnynt a bod yr arbedion o ran costau rhwng 20 a 30 y cant. Canfu Cynllun Partneriaeth Caerdydd, a addasodd 100 o gartrefi a phum bloc o fflatiau, bod ymagwedd yn seiliedig ar ardaloedd wedi arwain at ostyngiad o 20 y cant o leiaf yn y costau i ddeiliaid tai, o gymharu ag uwchraddio cartrefi yn unigol. Roedd y cyngor yn gallu trosglwyddo'r arbedion hyn i berchnogion tai a bu hynny, ynghyd â'r gwelliannau i ymddangosiad y tai, yn fodd o'u hannog i gael gwaith wedi'i wneud ar eu tai.

Ymgysylltu â chymunedau a'u galluogi

Rydym wedi canfod bod mwy o gyfle i bobl leol gyfrannu at wella eu cymdogaethau drwy raglen integredig na thrwy raglen sy'n canolbwyntio ar un mater penodol, fel carbon. Mae pobl am gael lleoedd gwell. Mae hyn yn golygu lleoedd y maent yn teimlo'n ddiogel ynddynt, cartrefi sy'n fforddiadwy i'w cynhesu, cymdogaethau sy'n wydn er mwyn gwrthsefyll tywydd eithafol, manau cyhoeddus wedi'u cynnal a'u cadw'n dda a pharciau i ymlacio ac i chwarae ynddynt, llwybrau cerdded a seiclo cyfleus, a mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus.

Nododd ein gwaith ymchwil amryw o wahanol ffyrdd o ymgysylltu â chymunedau. Yn Todmorden daeth y gymuned ynghyd yn wreiddiol i gynhyrchu bwyd lleol. Erbyn hyn mae'n gweithio gydag ystod o gyrff yn cynnwys y cyngor, ysgolion, meddygon a chyrrff eraill i roi eu cynlluniau ar waith. Mae hyn yn cynnwys sefydlu menter leol i gynhyrchu pysgod, llyisiau a ffrwythau; rhwydwaith o bobl sy'n cadw ieir ac yn gwerthu wyau a gweithio gyda masnachwyr lleol i hyrwyddo bwyd lleol.

Yn fwyaf arwyddocaol, mae'r ymagwedd hon yn creu cyfle i bobl weithio gyda'i gilydd mewn cymunedau i greu cymdeithas gryfach a mwy cydlynus a galluogi pobl i wneud dewisiadau cynaliadwy yn eu bywydau o ddydd i ddydd. Fel y nodar adroddiad mae newidiadau hirdymor mewn ymddygiad ac arferion yn fwy tebygol o gael eu cyflawni os oes gan gymunedau rôl gref. Cred y comisiwn y bydd yr ymagwedd hon yn arwain at newid hirdymor er gwell drwy feithrin gallu grwpiau cymdogaethau, mentrau cymdeithasol, cyrrff eraill yn y trydydd sector a llywodraeth leol i gydweithio a datrys problemau lleol. Gall gweithio drwy bartneriaethau cymdogaeth rymuso cymunedau i wneud penderfyniadau am sut y caiff eu hardaloedd eu rheoli, ac ynghylch lle y dylid cyfeirio elw o gyfleoedd buddsoddi newydd i wella lles yn yr hirdymor.

Defnyddio adnoddau er budd ardaloedd lleol

Rydym wedi canfod y gall gweithio mewn ffordd integredig ar sail ardaloedd arwain at fwy o fuddiannau i gymunedau yn sgil adnoddau lleol. Gellir cyflawni hyn drwy integreiddio gwahanol elfennau i sicrhau cyflenwad a defnydd mwy effeithlon o adnoddau – fel aildefnyddio gwres gwastraff o orsaf bŵer i gynhesu adeiladau neu gynhyrchu ynni o ddeunydd gwastraff a charthion.

Yn yr un modd, gall rhai o'r elfennau a gyflwynir fel rhan o'r rhaglen addasu ar gyfer cymdogaethau greu incwm.

Os mabwysiadir ymagwedd integredig mae potensial i gymdogaethau elwa ar yr incwm a gynhrychir, ac ail-fuddsoddi elw dros ben yn lleol, er enghraifft mewn gwaith addasu arall. Mae angen ffyrdd newydd o alluogi pobl leol i elwa ar ddatblygu seilwaith lleol.

Yn Fintry yn yr Alban, mae tyrbîn gwynt sy'n eiddo i'r gymuned yn cynhyrchu 8,000MWh o drydan sy'n cael ei werthu i'r Grid Cenedlaethol. Mae hyn yn helpu i dalu'r benthyriad gwreiddiol a thalu'r costau rhedeg. Caiff yr elw dros ben, sef £50,000-£100,000 y flwyddyn, ei roi i Ymddiriedolaeth Datblygu Fintry, sy'n cynnwys 150 o drigolion. Defnyddiwyd yr arian i wneud cartrefi yn y pentref yn ynni-ffeithlon drwy ddarparu inswleiddio am ddim.

Yn ogystal, mae gweithio ar sail ardaloedd yn cynyddu'r potensial i feithrin gallu ymysg cwmnïau lleol a chreu swyddi lleol yn ogystal â chynyddu ymarferoldeb rhai mathau o dechnoleg. Mae darpariaeth yn seiliedig ar ardaloedd drwy Kirklees Warm Zone wedi cynnal 127,000 o asesiadau ynni a arweiniodd at inswleiddio atigau mewn bron 37,000 o adeiladau ac inswleiddio waliau ceudod mewn dros 17,000. Drwy'r gwaith hwn mae Warm Zone wedi creu 100 o swyddi y flwyddyn am dair blynedd yn uniongyrchol, ac wedi creu 29 o swyddi ychwanegol y flwyddyn yn anuniongyrchol. Yn ogystal mae un o brif gwmnïau gosod systemau arbed ynni wedi adeiladu depo a chanolfan hyfforddi leol gerllaw. Mae mwy na 200 o osodwyr wedi cael eu hyfforddi hyd yma.¹⁷

Beth sy'n atal ymagwedd integredig yn seiliedig ar ardaloedd?

Bydd rhaglenni addasu sy'n canolbwyntio ar un canlyniad yn unig, fel lleihau carbon, yn cyfyngu ar y potensial i sicrhau'r buddiannau niferus a amlinellwyd yn y crynodeb gweithredol hwn hyd yma. Rydym wedi adolygu dros 80 o astudiaethau achos, wedi gweithio gyda bron 50 o arbenigwyr ym meysydd y gymuned, darpariaeth a chyllid ac wedi comisiynu ymchwil i senarios ar gyfer uwchraddio seilwaith cymdogaethau. Yn sgîl y gwaith hwn rydym wedi canfod mai'r rhwystr mwyaf cyffredin sy'n atal y buddiannau cynaliadwyedd ehangach rhag cael eu hintegreiddio a'u cyflawni mewn rhaglenni addasu yw'r ffaith nad oes un corff yn llywio ac yn cydgysylltu'r broses o gynllunio a chyflawni'r gwaith. Ystyriwyd mai nodi a/neu ddatblygu cyrff o'r fath oedd yr allwedd i ddatrys llawer o'r materion hyn, ymgysylltu ag eraill yn y gymuned a dod â rhanddeiliaid ynghyd o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Fel y dengys ein hastudiaethau achos mae yna rai cyrff sy'n ymgymryd â'r rôl hon. Mae iddynt ystod o strwythurau sy'n cynnwys, ymysg eraill, grwpiau cymunedol, cwmnïau cydweithredol, ymddiriedolaethau datblygu, mentrau

cymdeithasol, cynghorau plwyf, awdurdodau lleol a phartneriaethau strategol lleol. At ddibenion yr adroddiad hwn fe'u gelwir yn bartneriaethau cymdogaeth.

Mae'r astudiaethau achos yn yr adroddiad yn storïau llwyddiant, fodd bynnag - y rhai sy'n llwyddo i sicrhau gwelliannau gwirioneddol i les hirdymor eu hardaloedd lleol. O'n trafodaethau gyda'r cymunedau hyn a rhanddeiliaid ehangach fodd bynnag, mae'n amlwg bod partneriaethau cymdogaeth yn cael eu llesteirio'n rhy aml gan ddiffyg cefnogaeth (mentora, technegol, sefydliadol) a diffyg mynediad i gyllid (yn arbennig cyllid sbarduno a chostau craidd). Gall y diffyg cymorth technegol hwn a'r diffyg mynediad i gyllid lesteirio eu gallu i ddatblygu cynlluniau sy'n defnyddio adnoddau'n effeithiol i greu'r gwerth economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol mwyaf. Nawr mae cyfle i'r Llywodraeth fynd i'r afael â'r problemau hyn drwy'r cynlluniau a gyhoeddwyd ganddi yn ddiweddar i gefnogi trefnwyr cymunedol a sefydlu'r Big Society Bank.

Beth yw egwyddorion allweddol partneriaeth cymdogaeth effeithiol?

Mae mwy o gydnabyddiaeth o'r angen i weithio mewn partneriaeth ar lefel leol i wella sut mae lleoedd presennol yn gweithio. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gwelwyd nifer o raglenni a threialon i annog mwy o weithio mewn partneriaeth yn arbennig rhwng cwmnïau, awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol. Mae'r rhain yn cynnwys Rhaglen Arbed Ynni yn y Gymuned yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd, Fframweithiau Carbon Lleol yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, Parthau Carbon Isel

Llundain a Her Cymunedau Carbon Isel. Mae'r Strategaeth ar gyfer Rheoli Ynni yn y Cartref¹⁸ hefyd yn amlinellu model darpariaeth newydd, drwy bartneriaethau rhwng cwmnïau ynni, awdurdodau lleol a sefydliadau lleol eraill. Fodd bynnag, yn rhy aml mae'r treialon hyn yn canolbwyntio ar faterion unigol fel carbon ac nid ydynt yn rhoi rôl effeithiol i gymunedau. Os ydynt i wneud y defnydd gorau o adnoddau yn effeithiol er mwyn sicrhau gwelliannau hirdymor i les eu hardaloedd mae angen i ffocws partneriaethau

cymdogaeth fod yn ehangach.

Drwy'n gwaith ymchwil, rydym wedi canfod bod rhai egwyddorion allweddol sy'n gwneud partneriaeth cymdogaeth effeithiol. Bydd y rhain yn amrywio yn ôl amgylchiadau lleol, ond yn ddelfrydol dylai:

- Fod yn bartneriaeth amlddisgyblaeth sy'n cynnwys cymunedau, awdurdodau lleol, perchnogion seilwaith ac eraill, yn arbennig y rhai a chanddynt arbenigedd

yn y maes cyllid, pwerau i wneud penderfyniadau ac arbenigedd technegol

- Bod ar ffurf sy'n briodol i anghenion ac adnoddau lleol, gydag arweinyddiaeth naill ai o'r gymuned neu'r awdurdod lleol. Dylai hyn adeiladu ar bartneriaethau presennol a strwythurau cyflenwi lle y bo'n briodol
- Cael presenoldeb a diddordeb parhaus, hirdymor yn y gymdogaeth.

Beth mae partneriaeth cymdogaeth effeithiol yn ei wneud?

Rôl partneriaeth cymdogaeth yw llywio a chydgyssylltu'r gwaith o gynllunio a chyflawni gwelliannau cynaliadwyedd ar lefel leol sydd wedi cael eu nodi fel blaenoriaethau gan y gymuned. Dylai'r partneriaethau hyn anelu at wella seilwaith ar lefel leol er mwyn cyflwyno mesurau i leihau ac addasu carbon ac ar yr un pryd sicrhau buddiannau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol ehangach.

Dylai partneriaethau ddod â thîm ynghyd a chanddo ddiddordeb mewn datblygu'r gwaith addasu yn y gymdogaeth, datblygu gweledigaeth a thargedau, cynhyrchu cynlluniau addasu gofodol ar gyfer y gymdogaeth, a datblygu a chyflwyno model ariannu.

Pwy allai gymryd rhan mewn partneriaethau cymdogaeth?

Cymunedau

Bydd cynnwys cymunedau yn y gwaith o ddatblygu eu cymdogaethau yn cynyddu'r buddiannau hirdymor a ddaw yn sgîl partneriaethau cymdogaeth. Gellir cyflawni hyn drwy gynyddu cyfranogiad mewn rhaglenni addasu drwy argymhellion ar dafod leferydd ac ysbrydoliaeth o enghreifftiau go iawn (cyfeillion, teulu a chymdogion); annog a galluogi newid cynaliadwy mewn ymddygiad drwy ddysgu strwythuredig gan gyfryngwyr a grwpiau cymorth yr ymddiriedir ynddynt; neu gynnwys cymunedau yn y broses o gynllunio a rheoli rhaglenni gwaith. Yn sgîl adborth o raglen Cymunedau'r Fargen Newydd gwelwyd bod rhoi cyfle i breswylwyr feirniadu gwasanaethau lleol yn 'gwbl hanfodol i sicrhau cyfryngau darparu gwasanaethau lleol sy'n goeth, sy'n addas at y pwrpas ag iddynt fwy o ffocws'. Yn ei adroddiad nodwyd mai 'rhaid o'r prosiectau mwyaf llwyddiannus yw'r rhai lle yr ydym wedi cynnwys trigolion yn y broses gynllunio; a rhai o'n prosiectau lleiaf llwyddiannus, yn cynnwys rhai o'r methiannau, yw'r rhai lle nad ydym wedi gwneud hynny.'¹⁹

Gall cynnwys y gymuned arbed arian hefyd. Ar brosiect ailddatblygu tai gwerth £2.2 miliwn ar gyfer Ymddiriedolaeth Shoreditch yng ngogledd Llundain, amcangyfrifwyd bod yr arbedion yn sgîl ymgysylltu â'r

gymuned oddeutu £500,000. O gymharu â phrosiectau eraill, roedd llai o oedi a chostau yn gysylltiedig ag ymateb i gwynion trigolion, ailwampio cynlluniau yn hwyr yn y broses i gyfateb ag anghenion defnyddwyr a digwyddiadau ar y safle fel fandaliaeth a throseddau.²⁰

Yn ne Llundain, cafodd Ardal Adnewyddu Bellenden, sydd wedi ennill nifer o wobrau, fudd o ymgysylltu â'r gymuned o'r cychwyn. Gofynnodd Cyngor Southwark i'r preswylwyr sut yr oeddent am i'w strydoedd edrych a chaniatáu i bob stryd ddewis cynlluniau ar gyfer ei waliau, gatau, palmentydd a goleuadau stryd. Cyfrannodd mwy na 60 o artistiaid lleol, yn cynnwys Antony Gormley and Zandra Rhodes, at y prosiect ac mae'r strydoedd cefn, a oedd unwaith yn mynd â'u pen iddynt, bellach yn un o'r cymdogaethau mwyaf dymunol yn yr ardal. Amcangyfrifir bod prisiau tai 15-20 y cant yn uwch nag yn y strydoedd cyfagos. Lle mae strydoedd cyfan wedi cael eu gwella gyda'i gilydd, amcangyfrifir y gellir hawli premiwm o hyd at 25 y cant am eiddo. Nawr, mae Cyngor Southwark yn defnyddio'r gwersi a ddysgwyd yn Bellenden yn ei Barth Carbon Isel, lle y defnyddir trigolion i ledaenu gwybodaeth drwy 'EcoDimau' yn y gymuned.

Awdurdodau lleol

Mae awdurdodau lleol yn darparu mwy na 700 o wasanaethau gwahanol, neu mae ganddynt rywfaint o gyfrifoldeb dros y gwasanaethau hynny, yn amrywio o addysg, trafnidiaeth ac iechyd y cyhoedd i stiwardiaeth amgylcheddol. O gofio eu gwybodaeth leol, a'r ffaith eu bod yn berchen ar y rhan fwyaf o fannau cyhoeddus cymdogaeth, mae cynnwys yr ALL yn hanfodol i unrhyw raglen diweddar seilwaith. Dengys ymchwil bod cymunedau yn ymddiried ynddynt gryn dipyn yn fwy nag y maent yn ymddiried mewn cyflenwyr ynni. Mae gan awdurdodau lleol ddylanwad dros gynllunio a chyllid hefyd, sy'n golygu bod ganddynt ran allweddol i'w chwarae mewn datblygu partneriaethau cymdogaeth.

Pam y byddai awdurdodau lleol am fod yn rhan o hyn? Fel Llywodraeth ganolog, mae ganddynt dargedau amgylcheddol i'w cyrraedd fel yr amlinellir yn eu Strategaethau Cymunedau Cynaliadwy a chynlluniau gweithredu i gyd-fynd â nhw. Mae'r Lens Datblygu Cynaliadwy, sef offeryn meincnodi ar gyfer awdurdodau lleol a ddatblygwyd gan y Comisiwn a'r Asiantaeth Gwella a Datblygu (IdeA), yn dangos bod uwchraddio seilwaith presennol yn cael effaith uniongyrchol a chadarnhaol ar fwyafrif y mesurau cynaliadwyedd yn yr ardal. Gallai'r cyhoeddiad diweddar gan y Llywodraeth i ddatganoli mwy o bwerau a chyfrifoldebau i lywodraeth leol alluogi partneriaethau integredig i hyrwyddo camau ar lefel leol.

Eraill

Gallai'r rhain gynnwys perchnogion seilwaith (cwmnïau cyfleustodau, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig), darpar arianwyr, busnesau lleol neu fentrau cymdeithasol, cyrff trydydd sector eraill, Partneriaethau Strategol Lleol a'r rhai a chanddynt sgiliau technegol.

Yn ne Llundain, mae Cyngor Southwark wedi sefydlu Cwmni Gwasanaeth Amlgyfleustod (MUSCo) i integreiddio darparu cyfleustodau ar draws 30 hectar o ddatblygiad defnydd cymysg yn ardal Elephant and Castle. Mae MUSCo yn cynnwys Dalkia (sy'n darparu gwasanaethau rheoli), Veolia Water ac Independent Fibre Networks Limited, sy'n cydweithio gyda'r cyngor a'r prif ddatblygwyr, Lend Lease, i ddarparu systemau gwresogi ac oeri a thrydan carbon niwtral, dŵr nad yw'n ddŵr yfed a gwasanaethau cysylltedd data ar gyfer yr ardal. Mae cael un corff yn gyfrifol am ystod o elfennau yn torri costau ac yn lleihau aflonyddwch drwy rannu pibellau cludo ac osgoi dyblygu gwaith. Mae gwaith ymchwil arall a amlygir yn yr adroddiad hwn yn dangos bod gwneud addasiadau ynni effeithlon drwy bartneriaethau rhwng awdurdodau lleol a chwmnïau ynni yn gallu darparu £6 biliwn mewn buddiannau yn ystod cyfnod y strategaeth, o gymharu â £4.2bn ar gyfer model wedi'i arwain gan awdurdod lleol a £-0.3 biliwn ar gyfer model gan gwmni ynni yn unig.²¹

Yr ateb: prif ffrydio partneriaethau cymdogaeth ac ymagwedd integredig

Mae angen i ni briif ffrydio'r ymagwedd hon os ydym i gyflawni'r gweithgaredd sydd ei angen er mwyn cyrraedd targedau'r Llywodraeth ar garbon a sicrhau ystod eang o fuddiannau cynaliadwy mewn ffordd gost-effeithiol ar yr un pryd. Er mwyn cyflawni hyn mae angen i'r Llywodraeth wneud y canlynol:

Braenaru'r tir

Ar hyn o bryd nid oes polisi clir i gefnogi addasu lleoedd presennol i'w gwneud yn fwy cynaliadwy. **Os ydym am osgoi costau sylweddol yn y dyfodol a sicrhau buddiannau niferus yn sgîl gwneud addasiadau drwy ymagwedd integredig yn seiliedig ar ardaloedd rhaid i'r Llywodraeth roi arweiniad polisi clir i gefnogi maint y gwaith sydd ei angen i uwchraddio seilwaith ein cymdogaethau**

Os ydym am gyflawni hyn rhaid i'r Llywodraeth roi'r gorau i ganolbwyntio ar dreialon a rhaglenni yn ymwneud â materion unigol a sicrhau buddiannau darpariaeth ar y cyd

ar lawr gwlad. Er mwyn i bartneriaethau cymdogaeth fod yn effeithiol mae angen i bolisiau a rhaglenni'r Llywodraeth alluogi a chefnogi integreiddio ar lefel leol. Bydd hyn yn gofyn am gamau gweithredu gan bob adran o'r Llywodraeth, nid dim ond y rhai a chanddynt gyfrifoldebau arweiniol dros gymunedau a newid yn yr hinsawdd.

Cydgysylltu cymorth

Bydd y cymorth y bydd ei angen ar bartneriaethau cymdogaeth yn amrywio yn dibynnu ar ba gam o'u datblygiad y maent ac ar eu dyheadau. Awgryma ein gwaith ymchwil a'n hastudiaethau achos mai'r prif feysydd sy'n debygol o fod angen cymorth yw:

- Cymorth dal dwylo a meithrin gallu ar gyfer awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol ar faterion technegol, ariannol a chyfreithiol, a rheoli prosiectau
- Arian symbylu ar gyfer costau craidd a phrosiectau ymchwil a datblygu

- Datblygu arferion gorau yn seiliedig ar adborth, monitro (yn cynnwys cofnodi data yn effeithiol), a phrosiectau ymchwil a datblygu
- Datblygu paneli caffael.

Mae nifer o gyrff y llywodraeth a'r trydydd sector yn darparu cymorth i awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol. Er y gwerthfawrogi rhywfaint o'r cymorth hwn, gall fod yn anodd cael gafael arno gan y caiff ei ddarparu drwy lu o wahanol sefydliadau, pob un â gwahanol dargedau ac amcanion. Mae eu natur wasgaredig yn golygu y gall fod yn anodd i bartneriaethau wybod ble i fynd i gael cyngor. O siarad â'n rhanddeiliaid, ymddengys fod adnoddau'n cael eu dyblygu mewn rhai meysydd (fel offer y we) tra bod bylchau amlwg mewn meysydd eraill (mentora, meithrin gallu, cyfleoedd i rannu arferion gorau a chyngor ariannol). Gall strwythurau presennol ei gwneud yn anodd hefyd i gymunedau ddatblygu eu hatebion eu hunain.

Mae potensial i symleiddio strwythurau cymorth presennol, er mwyn ei gwneud yn haws i gymunedau ac awdurdodau lleol eu defnyddio. I gyflawni hyn, argymhellir bod un adran yn cydgysylltu'r cymorth, ac y byddai defnyddwyr yn gallu cael mynediad i'r ystod gyfan o gymorth drwy un rhyngwyneb. Yn ogystal â gwella pa mor ddefnyddiol ydyw, byddai hyn yn darparu porth ar gyfer monitro anghenion defnyddwyr, a nodi a rhannu arferion gorau. Yn ogystal, gallai leihau costau cyffredinol gwasanaethau o'r fath drwy ddileu dyblygu a chefnogi cymunedau i ddatblygu a rhannu eu hatebion eu hunain. Croesewir cynnig diweddar y llywodraeth i roi mwy o bwerau a chymorth i gymunedau lleol lunio eu cymdogaethau gan y byddant yn helpu i fynd i'r afael â'r rhwystrau a nodwyd gan y Comisiwn yn yr adroddiad hwn. Rhaid i'r polisïau hyn gael eu datblygu mewn ffordd integredig, ac edrych ar sut y gallant weithio gyda'r ddarpariaeth bresennol a gwella arni os ydynt am fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr adroddiad hwn a sicrhau'r budd mwyaf ar lawr gwlad.

Rhyddhau cyllid

Bydd arian y sector cyhoeddus yn gyfyngedig iawn felly mae angen i ni ddefnyddio'r hyn sydd ar gael yn fwy effeithiol. Mae hyn yn golygu rhoi mwy o allu i bartneriaethau cymdogaeth ddylanwadu ar sut y mae arian y sector cyhoeddus (a'r arian y mae gan y sector cyhoeddus rywfaint o ddylanwad drosto fel y rhwymedigaeth newydd ar gwmnïau ynni) yn cael ei ddefnyddio yn eu hardal. Mae'r cynigion i roi mwy o annibyniaeth ariannol i lywodraeth leol a grwpiau cymunedol yn ychwanegiad i'w groesawu. Pwyswn ar y llywodraeth i edrych yn fanwl ar lefel y gymdogaeth wrth adolygu ffyrdd o ddatganoli p-er a rhoi mwy o annibyniaeth i lywodraeth leol a grwpiau cymunedol.

Fel y nodir yn yr adroddiad gall rhai rhaglenni uwchraddio yn y gymdogaeth greu elw yn y byrdymor a'r hirdymor,

gan arwain at enillion cyflym ac araf i fuddsoddwyr. Fodd bynnag, gall fod yn anodd i bartneriaethau cymdogaeth gael gafael ar fuddsoddiad sefydliadol. Yn nodweddiadol, mae buddsoddwyr sefydliadol yn gofyn am raddfeydd buddsoddi o oddeutu £50 miliwn ar gyfer buddsoddiad ecwiti a £100 miliwn ar gyfer buddsoddiad dyled. Os yw partneriaethau cymdogaeth am ddenu buddsoddiad o'r sector preifat mae angen i ni ddatblygu mecanweithiau a fydd yn ei gwneud yn haws iddynt gael gafael ar gyllid. Mae'r Banc Buddsoddi Gwyrdd arfaethedig yn rhoi cyfle i'r llywodraeth ddatblygu mecanwaith o'r fath. I alluogi hyn i ddigwydd, rhaid i'r banc ryddhau cyllid ar gyfer prosiectau ar lefel y gymdogaeth ochr yn ochr â chyllid ar gyfer seilwaith strategol ar raddfa fawr.

Os yw lleoedd am fod yn wirioneddol gynaliadwy yn yr hirdymor fodd bynnag rhaid i ni symud y tu hwnt i ddenu buddsoddwyr sefydliadol yn unig. Mae angen i ni alluogi cymunedau i ddatblygu cyfryngau buddsoddi lleol sy'n hunangynhaliol sy'n cadw ac yn ailfuddsoddi unrhyw elw dros ben er budd y gymuned. Gellir defnyddio'r elw dros ben hwn i helpu i ariannu'r prosiectau hynny nad oes ganddynt unrhyw botensial i greu refeniw ond sy'n gallu arwain at ystod o fuddiannau i'r gymuned.

I gefnogi cyfryngau buddsoddi lleol mae angen i ni fod yn fwy craff ynghylch y ffordd y defnyddiwn arian cyfyngedig y sector cyhoeddus. Camau cynharaf prosiectau (pennu cwmmpas a datblygu) sydd â'r risg fwyaf o safbwynt buddsoddwyr. Gellid defnyddio adnoddau'r sector cyhoeddus i leihau'r risg hon a chaniatáu i brosiectau fynd rhagddynt. Gellir cyflawni hyn drwy amrywiol ddulliau yn cynnwys gwarantïad y sector cyhoeddus, y defnydd o asedau cyhoeddus, arian symbylu ar gyfer pennu cwmmpas gwaith (y gellid ei ddarparu gan y Big Society Bank), ymchwil a datblygu, a phennu fframwaith polisi clir. Wrth benderfynu sut i wario arian cyhoeddus, dylid rhoi ystyriaeth i sut y gallai gynhyrchu elw o'i ailfuddsoddi'n lleol.

Bydd angen cymhorthdal cyhoeddus ar rai prosiectau o hyd, yn arbennig y rhai heb fuddiannau wedi'u costio. Gellir ariannu'r rhain drwy amrywiol ddulliau yn cynnwys defnyddio elw dros ben o brosiectau enillion cyflym ac araf (lle y ceir buddsoddiad lleol neu dariff cymunedol ar ddatblygiad y sector preifat); 'atebion a ganiateir'; tariff/ardoll adran 106/Seilwaith Cymunedol; a thaliadau gwyrdd lleol eraill.

Mae'r Comisiwn yn galw ar y llywodraeth i gydnabod y buddiannau y gellir eu cyflawni drwy uwchraddio seilwaith cymdogaethau mewn ffordd integredig, maint yr her, costau peidio â gweithredu a'r angen i weithredu ar fyrder. I gyflawni hyn rhaid iddi annog, galluogi a grymuso cymdogaethau i gydweithio i droi eu hardaloedd yn rhywbeth mwy a gwell - i drawsnewid y ffordd y mae lle a chymdeithas yn gweithredu a'u cynaliadwyedd yn yr hirdymor.

Crynodeb o'r argymhellion

Mae'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yn galw ar y Llywodraeth i annog, galluog a grymuso cymunedau, llywodraeth leol a chyrrff eraill i gydweithio i lywio, cynllunio a chydgysylltu'r gwaith o ddarparu rhaglenni addasiadau integredig yn y gymdogaeth i sicrhau lleoedd cynaliadwy. Dylai'r partneriaethau cymdogaeth hyn ddarparu ystod o ganlyniadau cynaliadwyedd ochr yn ochr â mesurau i leihau ac addasu carbon mewn ffordd integredig a fydd yn sicrhau'r canlyniadau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol mwyaf mewn ffordd gost-ffeithiol.

Os ydym am brif ffrydio'r ymagwedd integredig hon yn seiliedig ar ardaloedd mae angen i'r Llywodraeth wneud y canlynol:

Braenaru'r tir

- 1** Dylai'r Llywodraeth gefnogi ymagwedd integredig yn seiliedig ar ardaloedd tuag at uwchraddio seilwaith lleol fel ffordd gost-ffeithiol o sicrhau'r canlyniadau cynaliadwy mwyaf mewn ardal.

Sut Byddai hyn yn cael ei gefnogi drwy: sicrhau bod polisiau a rhaglenni darparu gwasanaethau presennol a rhai newydd (fel y rhwymedigaeth newydd ar gwmnïau ynni ar ôl 2012) yn hyblyg er mwyn cefnogi darpariaeth integredig; gwella sail y dystiolaeth i asesu buddiannau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol yr ymagwedd hon; a datblygu prosiectau peilot a fydd yn profi darpariaeth integredig.

- 2** Dylai'r Llywodraeth wella sail y dystiolaeth ar gost-ffeithiolrwydd a buddiannau (ariannol ac eraill) gweithio gyda chymunedau i sicrhau canlyniadau cynaliadwy.

Sut Dylai hyn gynnwys adolygiad o raglenni presennol a rhaglenni a gwblhawyd - fel yr Her Cymunedau Carbon Isel, Big Green Challenge NESTA, Rhaglen Arbed Ynni yn y Gymuned (CESP) a Chronfa Her Hinsawdd yr Alban. Dylai hefyd geisio dysgu o raglenni darparu gwasanaethau blaenorol yn seiliedig ar ardaloedd.

- 3** O gofio'r brys i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a'r rôl hollbwysig y gall awdurdodau lleol ei chwarae i alluogi, annog ac ymgysylltu â phobl i gymryd camau, dylid ffurfioli rôl awdurdodau lleol fel arweinydd lleol ar fesurau i liniaru ac addasu newid yn yr hinsawdd.

Sut Gellid cyflawni hyn drwy ofyniad i osod targedau gorfodol ar liniaru ac addasu newid yn yr hinsawdd (Dangosyddion Cenedlaethol 186 a 188) neu drwy sicrhau bod hyn yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol.

- 4** Dylai'r Llywodraeth sicrhau bod fframweithiau rheoleiddio ar gyfer darparwyr seilwaith a chyfleustodau yn galluogi ac yn cefnogi ymagwedd integredig yn seiliedig ar ardaloedd tuag at gyflawni canlyniadau cynaliadwy.

Sut Dylid cynnal adolygiad 'addas at y pwrpas' o strwythurau rheoleiddio presennol i nodi rhwystrau rheoleiddio posibl sy'n atal ymagwedd integredig yn seiliedig ar ardaloedd tuag at uwchraddio seilwaith lleol.

Cydgysylltu cymorth

5 Dylai'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol fod yn gyfrifol am gydgysylltu cymorth trawslywodraethol ar gyfer partneriaethau cymdogaeth.

Sut Dylai hyn fod yn seiliedig ar gymorth presennol a ddarperir i awdurdodau lleol a phartneriaethau a arweinir gan y gymuned a dylid adeiladu ar hynny. Dylai'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol symleiddio'r broses i bartneriaethau cymdogaeth gael cyngor, drwy greu un rhyngwyneb. Yn ogystal â gwella eu defnyddioldeb bydd hyn yn sicrhau

y bydd gwasanaethau yn bodloni anghenion defnyddwyr heb ddyblygu adnoddau.

Y meysydd sy'n debygol o fod angen cymorth yw:

- Cyngor galluogi hirdymor, cymorth technegol (yn arbennig o ran defnyddio pŵer lles) a meithrin gallu ar gyfer awdurdodau lleol
- Cyngor technegol, ariannol a chyfreithiol, mentora, meithrin gallu a rheoli prosiectau ar gyfer grwpiau cymunedol
- Mynediad i gyllid, yn arbennig ar gyfer buddsoddiad cychwynnol a chostau craidd.

Rhyddhau cyllid

6 Dylai mecanweithiau ariannu'r sector cyhoeddus hyrwyddo datganoli cyllid i bartneriaethau cymdogaeth i'w galluogi i ddylanwadu ar benderfyniadau ynghylch sut y caiff arian y sector cyhoeddus ei wario yn eu hardal nhw.

Sut Dylid rhoi mwy o wybodaeth i gymdogaethau ar wariant cyhoeddus lleol, drwy ddarparu dadansoddiadau ar lefel cymdogaeth fel sydd yn yr Adroddiad Gwariant Lleol. Dylai adolygiad y Llywodraeth o gyllid llywodraeth leol edrych ar y materion a godwyd gan y treialon Total Place, yr astudiaethau achos Total Capital a'r cynlluniau braenaru Total Capital and Asset, a hyrwyddo ffyrdd o ddatganoli mwy o annibyniaeth ariannol i gymdogaethau.

7 Dylai Banc Buddsoddi Gwyrdd newydd gyfeirio cyllid at ystod eang o brosiectau seilwaith carbon isel ar amrywiol raddfeydd, yn cynnwys y gymdogaeth.

Sut Gellid darparu cymorth drwy:

- ddarparu cyfalaf neu warantau lle mae cyllid preifat yn anfodlon cymryd y risg
- cyfuno prosiectau bach er mwyn denu buddsoddiad ehangach
- darparu gwasanaeth broceru rhwng y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector
- codi cyfalaf (er enghraifft drwy Fondiau Gwyrdd) ar gyfer prosiectau cynaliadwyedd a nodir gan y partneriaethau.

Fel mesur dros dro, dylai'r Llywodraeth ymchwilio i'r syniad o gronfa addasiadau genedlaethol, gan adeiladu ar Gronfa Ynni, Newid yn yr Hinsawdd a Seilwaith Ewrop 2020.

8 Dylai'r Llywodraeth leihau'r risg datblygu drwy ddarparu cymorth polisi clir ar gyfer gwaith addasu mewn cymdogaethau.

Sut Dylid diffinio'r safonau a'r llinell amser ar gyfer eu cyflwyno yn awr ond eu cyflwyno'n raddol fel rhai gorfodol dros gyfnod o 15 mlynedd i alluogi perchnogion adeiladau i baratoi ar gyfer y gwaith hwn. Ar gyfer adeiladau domestig, dylai pob cartref gyrraedd SAP81 neu'n uwch erbyn 2025. Dylai Llywodraeth y DU gydraddoli TAW ar gyfer gwaith trwsio ac adnewyddu mewn eiddo domestig lle y gwneir gwaith adeiladu o'r newydd.

9 Dylid galluogi awdurdodau lleol i fenthycu yn erbyn y Tariff Cyflenwi Trydan a ffrydiau incwm Cymhellion Gwres Adnewyddadwy.

Sut Dylai'r Trysorlys weithredu hyn ar fyrder nawr bod y Tariff Cyflenwi Trydan yn weithredol.

10 Dylai'r Llywodraeth greu ffyrdd i alluogi cymunedau lleol i gael buddiannau hirdymor yn sgil sefydlu seilwaith ynni carbon isel, fel tai newydd neu dyrbinau gwynt, yn eu hardal.

Sut Gallai hyn gynnwys galluogi cymunedau i brynu cyfran o'r datblygiad, gan roi cyfran barhaus iddynt o'r cynnydd mewn cyfraddau busnes neu dariff cymunedol. Yn ogystal, gellid talu 'Atebion a ganiateir' (hy, taliadau gwrthbwysu ar gyfer cartrefi newydd na allant gyrraedd lefelau di-garbon ar y safle) i'r awdurdod lleol a'u defnyddio i ariannu prosiectau carbon isel a nodwyd yng nghynlluniau darparu gwasanaeth partneriaethau cymdogaeth.

Astudiaeth achos

Parthau Carbon Isel Blaenau'r Cymoedd, Cymru

Mae Rhaglen Carbon Isel Blaenau'r Cymoedd yn strategaeth adfywio sydd wedi datblygu model 'parth carbon isel' sydd bellach yn cael ei efelychu ar draws Cymru i gyflwyno swyddi drwy uwchraddio tai presennol. Mae'r rhaglen wedi'i datblygu mewn partneriaeth rhwng pum awdurdod lleol (Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerffili, Blaenau Gwent a Thorfaen) ac mae'n cyflwyno asesiadau ynni cartrefi ar raddfa fawr, gwelliannau effeithlonrwydd ynni, a thechnolegau ynni adnewyddadwy drwy raglen dreigl i gyflwyno ar lefel cymdogaeth, yn seiliedig ar ardaloedd.

Hyd yn hyn mae'r rhaglen wedi cyflwyno dros 1,500 o systemau ynni adnewyddadwy meicrogynhyrchu fel PV solar a systemau dŵr poeth solar i gynlluniau tai cymdeithasol. Mae inswleiddio waliau allanol hefyd wedi'i osod mewn eiddo addas, ac mae rhaglen dreigl o inswleiddio ceudodau a lloffttydd ar waith. At hynny mae'r rhaglen yn ennill integreiddio cymunedol drwy brosiect sy'n anelu at wella effeithlonrwydd ynni clybiau rygbi lleol a chyfleusterau chwaraeon.

Mae ariannu wedi'i ddarparu ar gyfer addasu tai cymdeithasol. Fodd bynnag, mae llawer o drigolion

sector preifat wedi dangos diddordeb mewn cymryd rhan – yn enwedig o ystyried yr arbedion ariannol (amcangyfrifir bod costau 20-30 y cant yn is pan ymgymerir â gwaith fel rhan o'r cynllun) a'r gwelliant mewn ansawdd gweledol. Mae'r darparwyr tai cymdeithasol sy'n rheoli'r cyflwyno yn edrych ar y posibilrwydd o ddarparu benthyciadau i gartrefi preifat, i dalu costau cychwynnol y mesurau hyn.

Mae model Blaenau'r Cymoedd yn cael ei efelychu ar draws Ardaloedd Adfywio Strategol yng Nghymru, drwy gynllun 'Arbed', a lansiwyd ym mis Mai. Cyfanswm gwerth y cynllun yw £30m a bydd yn targedu oddeutu 6000 o gartrefi ar draws Cymru. Yn benodol mae'r cynllun yn anelu at fod o fudd i bobl mewn tldi tanwydd drwy fesurau inswleiddio ac ynni adnewyddadwy.

Anogodd y galw gwarantiedig hwn Nwy Prydain i agor Canolfan Hyfforddiant Sgiliau Gwyrdd dynodedig y DU yn yr ardal. Nod y ganolfan yw hyfforddi mwy na 1,300 o bobl y flwyddyn. Bydd hyn yn cynnwys help arbenigol i alluogi pobl sy'n ddi-waith ers cyfnod hir ddo o hyd i waith yn yr economi werdd. Bydd Nwy Prydain hefyd yn defnyddio'r ganolfan i hyfforddi ei staff ei hun mewn technolegau adnewyddadwy.

Ôl-nodiadau

- 1 yn ei araith ar 17 Mai 2010 – www.hm-treasury.gov.uk/press_02_10.htm a gyrchwyd diwethaf ar 25 Mai 2010.
- 2 BioRegional a CABI 2008. Beth sy'n gwneud Eco-dref?
- 3 DECC/ONS 2010. Rhyddhad Ystadegol – Dangosydd Datblygu Cynaliadwy Newid yn yr Hinsawdd y DU: Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2009, Ffigurau Dros Dro, ac Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2008, Ffigurau terfynol yn ôl Math o Danwydd a Defnyddiwr.
- 4 Yr Ymddiriedolaeth Carbon 2009. Adeiladu'r Dyfodol, Heddiw.
- 5 SDC 2006. Cyfrif Stoc.
- 6 Y Gynghair Cartrefi Presennol (heb ei gyhoeddi eto). Costau Adnewyddu – papur safbwynt.
- 7 Yr Ymddiriedolaeth Carbon 2009. Adeiladu'r Dyfodol, Heddiw.
- 8 Jowit a Wintour 2008. Cost mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd byd-eang wedi dyblu, rhybuddia Stern, The Guardian, 26 Mehefin.
- 9 Deloitte 2008. 'Mini-Stern' for Manchester – www.deloitte.com/assets/Dcom-UnitedKingdom/Local%20Assets/Documents/UK_GPS_MiniStern.pdf
- 10 Asiantaeth yr Amgylchedd 2010. The Costs of the Summer 2007 Floods in England.
- 11 Pwyllgor Iechyd Tŷ'r Cyffredin 2004. Gordewdra: Trydydd adroddiad sesiwn 2003-2004 Rhifyn 1.

Galluogi cartrefi preifat i elwa ar gynlluniau tai cymdeithasol yng Nghaerdydd

Addasodd cynllun Partneru Caerdydd oddeutu 100 o gartrefi sector cymdeithasol a phreifat a phum bloc o fflatiau gydag uwchraddiadau ynni effeithlon. Cafodd y bartneriaeth fod cost gosod mesurau fel rhan o gynllun seiliedig ar gymdogaeth yn llai gan 20 y cant o leiaf na chostau gosodiadau unigol.

Cyflawnwyd y darbodion maint hyn drwy:

- cyflwyno cyflymach, gan fod peth o'r gwaith sydd ei angen ar gyfer uwchraddiadau unigol (fel stepiau ac alldroadau neu dorri byrddau neu leiniau yn y rendro) yn cael ei ddileu
- y gallu i ddarparu estyniadau to (lle y bo angen) ar gyfer teras cyfan yn hytrach nag i bob adeilad unigol
- yr angen am lai o waith cychwynnol yn golygu y gellid gwella cyflymder y cyflwyno
- y gallu i brynu deunyddiau mewn swmp (yn enwedig inswleiddio).

Nid oedd y broses yn hawdd ac fe gymerodd lawer o gynllunio ymlaen llaw a thîm dylunio rhagweithiol yn edrych ar ffyrdd o leihau'r costau a'r amser ar y safle.

Ariannodd yr awdurdod lleol ei stoc ei hun, a chynigiwyd grant i berchnogion cymwys gan yr adran Grantiau Tai'r Sector Preifat, oedd yn destun prawf modd. Cynigiwyd i berchnogion nad oeddent yn gymwys ar gyfer cymorth grant y cyfle i brynu i mewn ar gyfraddau ffafriol, gan ddefnyddio'r darbodion maint yr oedd y cynllun yn eu cynnig.

Cyflawnodd y cynllun gyfradd dderbyn o 20-25 y cant gan y cartrefi sector preifat hynny nad oeddent yn gymwys i gael grantiau. Roedd diddordeb gan drigolion ar ôl gweld gwell ymddangosiad allanol eiddo yn ystod cam cyntaf y gwaith, a siarad yn ddiweddarach â thrigolion am well gwres. Dilynodd Cyngor Caerdydd hyn i fyny gyda sgysiau am well costau rhedeg, cynnal a chadw a'r ffaith y byddai'n haws gwerthu'r eiddo ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau. Cysylltwyd hefyd â'r gymdeithas adeiladu leol i ddarparu benthyciadau ar gyfer y gwelliannau. Mae'r ymagwedd hon – sef y rhaglen tai cymdeithasol yn cael ei chynnig i gartrefi sector preifat – yn cael ei mabwysiadu gan gynllun Arbed yng Nghymru, lle mae landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn cynnig benthyciadau i dalu am gost y gwaith.

12 Sainsbury Centre for Mental Health 2003. Economic and Social Costs of Mental Health in England.

13 Ffederasiwn Tai Cenedlaethol/ECOTEC 2010. Social Impact of Poor Housing.

14 DfT 2006. Eddington Transport Study 2006.

15 Sustrans 2005. Economic Appraisal of Local Walking and Cycling Routes.

16 Pwyllgor ar Newid yn yr Hinsawdd 2010. Meeting Carbon Budgets – Ensuring a low-carbon economy. Ail Adroddiad Cynnydd i'r Senedd.

17 www.kirklees.gov.uk/community/environment/green/pdf/WZCaseStudyWithJanuaryFigures.pdf

18 CLG/DECC 2010. Warm Homes, Greener Homes: A Strategy for Household Energy Management.

19 CLG 2010. What works in neighbourhood-level regeneration? The views of key stakeholders in the New Deal for Communities Programme.

20 Enghraifft o astudiaeth yn Fellows Court, Shoreditch, gyda chostau wedi'u cyfrifo gan Dearle and Henderson Ltd.

21 CLG/DECC 2010. Household Energy Efficiency Delivery Model – Initial Assessment of Impacts.